Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Y mesur diogelwch ar-lein: Map ffordd Ofcom ar gyfer rheoleiddio

Dyddiad cyhoeddi: 6 Gorffennaf 2022

# Cynnwys

## Adran

1. Cyflwyniad 1

2. Ein dull o reoleiddio diogelwch ar-lein 3

3. Rhoi'r mesur diogelwch ar-lein ar waith 7

4. Manylion y cynllun gweithredu 11

# 1. Cyflwyniad

## Y cefndir i baratoadau Ofcom

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein syniadau presennol am ein cynllun ar gyfer gweithredu rheoleiddio diogelwch ar-lein, yn seiliedig ar y Mesur Diogelwch Ar-lein fel y'i cyflwynwyd yn Senedd y Deyrnas Unedig ar 17 Mawrth 2022. Mae'n disgrifio ein barn am rôl rheoleiddio o ran mynd i'r afael â niwed ar-lein, sut rydym yn rhagweld ymgysylltu â gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio a sut byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill. Bwriedir iddo fod yn ddefnyddiol yn bennaf ar gyfer gwasanaethau sydd o fewn cwmpas y Mesur, ac mae'n cynnwys amserlenni dangosol cychwynnol ar gyfer gweithredu pob elfen o'r drefn.

Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu penodi Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer diogelwch ar-lein yn y Deyrnas Unedig. Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu ein dealltwriaeth o gyfleoedd a heriau rheoleiddio diogelwch ar-lein, meithrin ein gallu mewnol a dechrau cynllunio ar gyfer ein dull rheoleiddio.

Ers mis Rhagfyr 2020, rydym wedi bod yn cael arian gan y Llywodraeth i gryfhau ein gallu i baratoi ar gyfer y rôl hon, gan gynnwys creu tîm Polisi Diogelwch Ar-lein newydd, swyddogaeth Technoleg Ymddiriedaeth a Diogelwch, a thyfu ein timau Gorfodaeth, Cyfreithiol, Ymchwil a Dealltwriaeth, a Data. Rydyn ni wedi dechrau adeiladu canolfan ym Manceinion, lle'r ydyn ni'n bwriadu creu 150 o swyddi newydd o blith amcangyfrif o 300-350 o swyddi sydd eu hangen i gyflawni'r rheoliadau erbyn diwedd 2024.

Rydym wedi bod yn defnyddio ein profiad o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos, gan fod gennym bwerau i wneud hynny yn barod o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd sydd wedi ei throsglwyddo. Ym mis Hydref 2021, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau ar gyfer llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig, y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt gymryd mesurau priodol i ddiogelu defnyddwyr. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein Cynllun a'n Dull o ymwneud â'r llwyfannau rhannu fideos a oedd yn amlinellu'r pum blaenoriaeth rheoleiddiol cychwynnol: lleihau'r risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar wefannau i oedolion; gosod y sylfeini ar gyfer dilysu oedran ar y gwefannau hynny; mynd i'r afael â chasineb a therfysgaeth ar-lein; sicrhau profiad priodol i oedran ar lwyfannau sy'n boblogaidd ymysg pobl dan 18 oed; a sicrhau bod prosesau llwyfannau rhannu fideos ar gyfer adrodd cynnwys niweidiol yn effeithiol.

## Gair am y ddogfen hon

**Rydyn ni'n gweithio'n galed i baratoi ar gyfer ein rôl newydd.** Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion ein cynllun gweithredu presennol, yn seiliedig ar ofynion y Mesur a'r ddealltwriaeth rydym wedi ei chael o'n hymchwil a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid hyd yma.

Fodd bynnag, mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar ein dealltwriaeth bresennol o'r Mesur fel y mae a'r amseru tebygol ar gyfer pasio deddfwriaeth (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth o dan y Mesur). Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, mae'r Mesur wedi pasio'r cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ac mae'n agored

i ddiwygiadau wrth iddo fynd drwy weddill y broses Seneddol. O ganlyniad, mae'r amserlenni a'r gofynion a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn dal yn rhai dros dro.

Wrth i amseriad neu sylwedd y Mesur esblygu, ac wrth i'n gwaith paratoi fynd rhagddo, felly hefyd ein cynlluniau. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gyflwyno camau gweithredu wrth i'r amserlen ddeddfwriaethol ddod yn gliriach (gan gynnwys amseriad tebygol is-ddeddfwriaeth berthnasol), lle mae'n bosibl gwneud hynny'n gyson â'n hymrwymiad i lunio polisïau cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymgynghori ag eraill. Byddwn yn darparu diweddariad pellach ar ein cynlluniau gweithredu os byddant yn newid yn sylweddol.

Wrth baratoi'r Map ffordd hwn, rydym wedi canolbwyntio ar y prif ddyletswyddau sydd o'r arwyddocâd mwyaf i'r diwydiant ac i'r cyhoedd yn gyffredinol, a'r cerrig milltir allweddol y bydd angen i wasanaethau yn y cwmpas weithio tuag atynt er mwyn paratoi ar gyfer rheoleiddio. Nid ydym wedi rhoi sylw i bob agwedd ar y Mesur, ac nid bwriad y ddogfen hon yw darparu canllawiau i wasanaethau ynghylch yr hyn y bydd angen iddynt ei wneud i gydymffurfio.

Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am yr hyn y gall gwasanaethau ei wneud i gydymffurfio â'u dyletswyddau yn y Codau a'r canllawiau a gyhoeddir gennym ar ôl i'r Mesur gael Cydsyniad Brenhinol.

# 2. Ein dull o reoleiddio diogelwch ar-lein

## Rôl rheoleiddio

Bydd y Mesur Diogelwch Ar-lein, fel y mae ar hyn o bryd, yn mynnu bod gan wasanaethau sy'n rhoi lle i gynnwys sydd wedi ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr, ynghyd â pheiriannau chwilio, systemau a phrosesau ar gyfer diogelu unigolion rhag mathau penodol o niwed ar-lein, ac yn mynnu bod darparwyr pornograffi yn sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig. Bydd dyletswyddau newydd ar gyfer unrhyw wasanaeth o'r fath sydd â nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig neu sydd wedi ei anelu at farchnad y Deyrnas Unedig, a rhaid i'r rhain gydymffurfio â'r gyfraith newydd.

Mae ein hymchwil yn dangos sut mae pobl wedi elwa'n fawr ar don o arloesi technolegol a adeiladodd lawer o'r gwasanaethau ar-lein mwyaf poblogaidd a'r rhai sy'n cael eu defnyddio amlaf heddiw. Mae llwyfannau ar-lein wedi cefnogi llif rhwydd o newyddion a gwybodaeth; wedi helpu busnesau i gyrraedd marchnadoedd newydd; ac wedi creu potensial na welwyd ei debyg o'r blaen ar gyfer hunanfynegiant a chymuned fyd-eang. Mae chwe defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg yn y Deyrnas Unedig yn cytuno bod treulio amser ar-lein yn eu helpu i ddilyn eu diddordebau a'u hobïau mewn ffordd na allent ei gwneud all-lein, ac mae bron i hanner yn cytuno y gallant rannu eu barn a chael llais ar-lein yn haws neu'n fwy effeithiol nag y gallant all-lein.[1]

Fodd bynnag, mae twf cyflym iawn gwasanaethau newydd – graddfa ac amrywiaeth y gweithgarwch ar-lein na welwyd ei debyg o'r blaen, a chael gwared ar rwystrau rhag lledaenu cynnwys niweidiol – wedi creu heriau diamheuol. Mae ein tystiolaeth ein hunain yn dangos sut mae niwed ar-lein wedi effeithio ar ddefnyddwyr rhyngrwyd yn y Deyrnas Unedig, gyda thros chwech o bob deg defnyddiwr wedi dod o hyd i o leiaf un enghraifft o gynnwys neu ymddygiad ar-lein a allai fod yn niweidiol yn ystod y pedair wythnos diwethaf, a menywod yn arbennig yn llai hyderus am eu diogelwch ar-lein.[2] Mae hanner yr oedolion yn cefnogi cymryd camau pellach i wella diogelwch defnyddwyr ar-lein, gyda llai na chwarter o'r farn bod y mesurau diogelwch ar-lein presennol yn ddigonol i ddiogelu defnyddwyr.[3]

Dyletswydd graidd Ofcom o dan y Mesur yw **diogelu dinasyddion yn ddigonol rhag niwed drwy sicrhau bod gwasanaethau ar-lein yn gwneud defnydd priodol o systemau a phrosesau i gadw defnyddwyr yn ddiogel**. Wrth wneud hynny, byddwn yn sicrhau bod ein dull gweithredu yn cynnal pwysigrwydd rhyddid mynegiant ar-lein. Dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf, rydym wedi bod yn ymgysylltu'n helaeth â'r diwydiant, cymdeithas sifil, cyrff cyhoeddus ac arbenigwyr annibynnol, yn ogystal â llunwyr polisïau a rheoleiddwyr eraill ledled y byd. Gwyddom fod llawer o wasanaethau eisoes yn cymryd camau i amddiffyn eu defnyddwyr. Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau delerau gwasanaeth sy'n gwahardd rhannu cynnwys niweidiol neu anghyfreithlon, a safoni cynnwys mewn ymateb i gwynion gan ddefnyddwyr. Mae rhai gwasanaethau'n defnyddio offer canfod cynnwys awtomataidd soffistigedig. Mae llawer yn gweithio'n agos gyda chymdeithas sifil, asiantaethau

[1] Ofcom, Ein Gwlad Ar-lein 2022, tud. 57.
[2] Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein. Ymysg defnyddwyr rhyngrwyd 13+ yn y Deyrnas Unedig
[3] Ofcom, Ein Gwlad Ar-lein 2022, tud. 77.

amddiffyn a gorfodi'r gyfraith i helpu i fynd i'r afael â'r niwed mwyaf difrifol - er enghraifft, cam-drin plant yn rhywiol.

Er eu bod yn cael eu croesawu, nid yw'r cynlluniau hyn wedi bod yn ddigon i leddfu pryderon am niwed ar-lein. Yn ein trafodaethau â rhanddeiliaid, rydym wedi clywed beirniadaeth bod gweithredu gan y diwydiant yn rhy adweithiol; bod bwlch rhwng yr hyn mae llwyfannau'n ei wahardd a realiti profiadau defnyddwyr; ac nad oes digon o dryloywder ac asesiad annibynnol o bolisïau llwyfannau.

Mae'r Mesur yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy fynnu bod gwasanaethau'n cymryd **agwedd gynhwysfawr a rhagweithiol at reoli risg** o niwed ar-lein, a sicrhau bod risgiau i ddiogelwch defnyddwyr yn cael eu hystyried fel rhan o ddylunio cynnyrch a gwasanaethau. Er enghraifft, bydd angen i wasanaethau ystyried y risg y gallai algorithmau hyrwyddo cynnwys niweidiol, yn enwedig i ddefnyddwyr agored i niwed, neu roi plant mewn cysylltiad peryglus ag oedolion. Bydd y Mesur yn mynnu bod gan wasanaethau brosesau llywodraethu cadarn i nodi a rheoli risgiau o'r fath, a systemau effeithiol i ddefnyddwyr roi gwybod am gynnwys niweidiol, a chwyno a cheisio iawn. Bydd angen i'r gwasanaethau sydd â'r cyrhaeddiad uchaf fod yn llawer mwy tryloyw ynghylch y risgiau maent yn eu canfod a'r camau maent yn eu cymryd i ymateb.

Nid oes un dull o reoli risgiau ar-lein sy'n addas i bawb. Ond byddwn yn disgwyl i bob cwmni ystyried sut maent yn blaenoriaethu diogelu defnyddwyr, ymgorffori ystyriaethau diogelwch mewn penderfyniadau dylunio cynnyrch a pheirianneg, ac ystyried anghenion a hawliau pob defnyddiwr wrth iddynt wneud hynny. Byddwn eisiau gwybod sut mae cwmnïau'n ymateb i risgiau o niwed ac yn ystyried unrhyw gyfaddawdu ag amcanion eraill, fel ymgysylltu â defnyddwyr. Yn ein barn ni, dylai'r materion hyn gael eu trafod yn rheolaidd gan uwch wneuthurwyr penderfyniadau, a'u bod yn cael eu perchenogi ar y lefelau uchaf.

Mae creu diwylliant ac ymarfer cryfach o reoli risg mewn gwasanaethau ar-lein yn brosiect tymor hir ac ni fydd yn datrys problemau niwed ar-lein dros nos. Felly, rydyn ni'n bwriadu ategu ein ffocws trawsbynciol ar reoli risg drwy **weithredu'n gynnar i fynd i'r afael â'r niwed mwyaf sylweddol ar-lein**. Mae Llywodraeth y DU, a'r diwydiant ei hun, wedi nodi nifer o flaenoriaethau, a byddwn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill yn y meysydd hynny. Mae'r rhain yn cynnwys camau i atal lledaenu deunydd cam-drin plant yn rhywiol a mynd i'r afael â meithrin perthynas amhriodol ar-lein; hybu ymdrechion y diwydiant i atal terfysgaeth ar-lein; gweithio gydag asiantaethau eraill i ategu ymdrechion i fynd i'r afael â thwyll ar-lein; ac atal plant rhag cael gafael ar gynnwys nad yw'n briodol ac a allai fod yn niweidiol iddynt.

Mewn rhai o'r meysydd hyn, mae technolegau aeddfed eisoes ar gael a chynlluniau sefydledig gan y diwydiant i atal lledaenu cynnwys niweidiol. Er enghraifft, mae'r Internet Watch Foundation wedi gweithio ers blynyddoedd lawer i ganfod, tarfu, symud ac atal deunydd cam-drin plant yn rhywiol ar-lein. Yn fwy diweddar, mae'r Fforwm Rhyngrwyd Byd-eang ar Wrthderfysgaeth wedi cael ei sefydlu gan rai o'r prif gwmnïau technoleg i feithrin cydweithio a rhannu gwybodaeth i fynd i'r afael â gweithgarwch eithafol terfysgol a threisgar ar-lein. Ond mewn sawl maes arall, megis dechrau ymddangos mae'r atebion.

Byddwn yn gweithio gyda diwydiant, cymdeithas sifil, a chyrff cyhoeddus eraill, yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt, i ddatblygu ymatebion wedi eu targedu ar niwed sy'n canolbwyntio ar natur y niwed dan sylw. Lle mae datrysiadau cymesur ar gael yn rhwydd, byddwn yn adlewyrchu'r rhain mewn

argymhellion clir yn y Codau Ymarfer. Ond mae bron pob niwed ar-lein yn gymhleth ac yn amlochrog, ac mae angen atebion amlweddog, cymhleth tebyg. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i feithrin cyd-ddealltwriaeth a nodi cyfleoedd i gydweithio i ddatblygu dulliau newydd, a safonau lle bo'n berthnasol.

Mae hwn yn fath newydd o reoleiddio a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni a'r diwydiant weithio mewn ffyrdd newydd. Mae'n bwysig deall yr hyn mae'r Mesur yn ei wneud a'r hyn nad oes ei angen. **Ni fydd Ofcom yn sensro cynnwys ar-lein**: nid yw'r Mesur yn ein grymuso i ddyfarnu ar eitemau unigol o gynnwys neu gyfrifon. Yn fwy cyffredinol, er y byddwn yn ceisio deall mynychder ac effaith cynnwys niweidiol ac anghyfreithlon i lywio ein polisi, **ni fydd presenoldeb cynnwys niweidiol neu anghyfreithlon, ynddo'i hun, yn sefydlu a yw'r gwasanaeth wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Mesur.** Yn hytrach, byddwn yn rhoi sylw i ddigonolrwydd systemau a phrosesau gwasanaethau i amddiffyn defnyddwyr, gan gydnabod na all unrhyw lwyfan sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gyfathrebu a rhannu cynnwys yn rhydd atal niwed yn gyfan gwbl, ac mai'r gofyniad ar wasanaethau yw lleihau, nid dileu'r risg o niwed.

Rydym yn gweithio'n galed i baratoi ar gyfer ein dyletswyddau newydd, ac edrychwn ymlaen at barhau i ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu ein polisïau a'n cynlluniau.

## Agwedd wahaniaethol a chymesur

Mae'r Llywodraeth wedi amcangyfrif bod cyfanswm y gwasanaethau o fewn cwmpas yn y Deyrnas Unedig yn unig tua 25,000. Bydd llawer mwy o wasanaethau a leolir dramor o fewn y cwmpas. Mae'r Mesur yn **gosod gofynion gwahanol ar wahanol fathau o wasanaethau**.

Rhaid i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaeth chwilio o fewn y cwmpas asesu'r risgiau o niwed sy'n gysylltiedig â chynnwys anghyfreithlon, a chymryd camau cymesur i liniaru'r risgiau hynny. Bydd yn rhaid i bob gwasanaeth sy'n debygol o gael ei ddefnyddio gan blant asesu risgiau o niwed i blant, a chymryd camau cymesur i liniaru'r risgiau hynny.

Rydym yn cydnabod nad oes gan wasanaethau llai a busnesau newydd yr adnoddau i reoli risg yn y ffordd mae'r llwyfannau mwyaf yn ei wneud. Mewn llawer o achosion, byddant yn gallu defnyddio dulliau llai beichus neu lai costus o gydymffurfio. Mae'r Mesur yn glir bod cymesuredd yn ganolog i'r drefn; dylai'r dull a ddewisir gan bob gwasanaeth adlewyrchu ei nodweddion a'r risgiau mae'n eu hwynebu. **Nid yw'r Mesur o reidrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau allu atal pob achos o gynnwys niweidiol nac asesu pob eitem o gynnwys** i weld a ydynt yn gallu achosi niwed – unwaith eto, mae'r dyletswyddau ar wasanaethau wedi eu cyfyngu gan yr hyn sy'n gymesur ac yn dechnegol ymarferol.

Bydd rhai gwasanaethau yn cael categori sy'n dod â dyletswyddau ychwanegol. Mae tri chategori arbennig:

- **Categori 1:** y gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cyrraedd y cyrhaeddiad uchaf gyda'r swyddogaethau risg uchaf, gyda gofynion tryloywder, dyletswydd i asesu risgiau cynnwys cyfreithlon ond niweidiol i oedolion, gofynion yn ymwneud â hysbysebu twyllodrus ac amrywiaeth o ddyletswyddau eraill.

- **Gwasanaethau Categori 2a**: y gwasanaethau chwilio cyrhaeddiad uchaf, gyda gofynion o ran tryloywder a hysbysebu twyllodrus.

- **Gwasanaethau Categori 2b**: gwasanaethau eraill sydd â swyddogaethau a allai fod yn beryglus neu ffactorau eraill, gyda gofynion o ran tryloywder, ond dim dyletswyddau ychwanegol eraill.

Mae'r Llywodraeth wedi amcangyfrif[4] y bydd tua 30 i 40 o wasanaethau yn cyrraedd y trothwy i gael categori yn seiliedig ar fwriad y polisi presennol. **O'r herwydd, rydym yn rhagweld na fydd y rhan fwyaf o wasanaethau o fewn y cwmpas yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau arbennig hyn.**

Bydd y trothwyon ar gyfer eu cynnwys yn y categorïau hyn yn gysylltiedig â maint, ymarferoldeb a ffactorau eraill, a chânt eu pennu gan y Llywodraeth mewn is-ddeddfwriaeth, mewn ymgynghoriad ag Ofcom. Bydd Ofcom wedyn yn penderfynu pa wasanaethau sy'n bodloni'r amodau trothwy ar gyfer pob categori ac yn cyhoeddi cofrestr o'r gwasanaethau ym mhob categori.

Rydym yn rhagweld y bydd yr adroddiadau tryloywder a gynhyrchir gan wasanaethau Categori 1, 2a a 2b yn gyfrwng pwerus ar gyfer ysgogi newid yn y sector ar-lein. Er bod llawer o wasanaethau eisoes yn cynhyrchu adroddiadau tryloywder, bydd y gofynion newydd adrodd ar dryloywder yn golygu y bydd angen iddynt gyhoeddi mwy o wybodaeth am sut maent yn mynd i'r afael â niwed ar-lein ac effeithiolrwydd eu mesurau diogelwch. Bydd adroddiadau tryloywder yn rhoi tystiolaeth bellach i ni er mwyn i ni allu mireinio ein dull rheoleiddio dros amser. Yn ogystal, drwy daflu goleuni ar yr hyn mae gwasanaethau'n ei wneud i frwydro yn erbyn niwed i ddefnyddwyr, byddant yn helpu i ddwyn gwasanaethau i gyfrif a chreu cymhellion o ran enw da er mwyn iddynt gryfhau eu systemau a'u prosesau.

O dan y Mesur, **gall gwasanaethau ddewis a ddylid cynnal cynnwys sy'n gyfreithlon ond sy'n niweidiol i oedolion, ac ni all Ofcom eu gorfodi i gael gwared arno.** Mae'n rhaid i gwmnïau Categori 1 asesu risgiau sy'n gysylltiedig â mathau penodol o gynnwys cyfreithiol a allai fod yn niweidiol i oedolion, bod â thelerau gwasanaeth clir yn egluro sut maent yn ei drin, a chymhwyso'r telerau hynny'n gyson. Rhaid iddynt hefyd ddarparu offer 'grymuso defnyddwyr' i alluogi defnyddwyr i leihau eu tebygolrwydd o ddod ar draws y cynnwys hwn. Nid yw hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau rwystro neu ddileu unrhyw gynnwys cyfreithiol oni bai eu bod yn dewis gwneud hynny o dan eu telerau gwasanaeth.

[4] Mesur Diogelwch Ar-lein: Asesiad Effaith, Ionawr 2022

# 3. Rhoi'r mesur diogelwch ar-lein ar waith

## Gweithredu ar unwaith ar ôl i'n pwerau ddechrau

Rydym yn bwriadu **symud mor gyflym â phosibl ar ôl i'r Mesur gael ei basio**, yn gyson â'r drefn a sefydlwyd gan y Mesur a'r is-ddeddfwriaeth, a'n hymrwymiad i brosesau llunio polisïau cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yr ymgynghorwyd arnynt, sy'n sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol.

Bydd yr union amserlen ar gyfer gweithredu yn cael ei gyrru'n bennaf gan y broses Seneddol a phenderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch is-ddeddfwriaeth. Mae ein rhagdybiaethau cynllunio presennol wedi eu seilio ar y Mesur fel y'i cyflwynwyd ac mae'n bosibl y byddant yn newid wrth i'r Mesur barhau ar ei hynt drwy'r Senedd. Mae manylion ac amseroedd ein cynllun presennol wedi eu cynnwys yn yr adran sy'n ymdrin â'n cynllun gweithredu isod.

Rydym yn disgwyl i'n pwerau ddod i rym ddau fis ar ôl i'r Mesur ddod i rym. Yn fuan ar ôl hynny, ein nod yw cyhoeddi ein canllawiau drafft cyntaf ar gyfer **asesiadau risg** a **Chodau Ymarfer sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon**, a fydd yn helpu gwasanaethau i ddeall sut gallant gydymffurfio â'u dyletswyddau. Er mwyn helpu gwasanaethau i adnabod a deall y risgiau y gallent eu hwynebu, byddwn yn cynnal asesiad risg sector. Rydym hefyd yn debygol o gyflwyno ceisiadau ffurfiol am wybodaeth i rai gwasanaethau yr ydym wedi nodi eu bod yn wynebu risgiau penodol.

Fel yn ein holl waith, byddwn yn ymgynghori'n llawn ac yn dryloyw ar ein cynlluniau, gan roi digon o amser i gwmnïau wneud sylwadau a sicrhau ein bod yn ystyried yr adborth a gawn yn ofalus. Mae ein syniadau presennol ar fanylion y broses hon, a allai gymryd tua blwyddyn, o ystyried yr amrywiaeth eang o faterion y bydd yr ymgynghoriad yn ymdrin â nhw, wedi eu nodi yn ein cynllun gweithredu. Ar ôl ymgynghori, byddwn yn cyhoeddi canllawiau a Chodau terfynol ar gynnwys anghyfreithlon. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn adolygu ein Codau ac yn eu gosod gerbron y Senedd neu'n ein cyfarwyddo i'w haddasu.

Mae rhai elfennau o'r drefn yn dibynnu ar is-ddeddfwriaeth i bennu niwed cyfreithiol blaenoriaethol a phennu trothwyon ar gyfer categoreiddio. Ein rhagdybiaeth cynllunio yw y bydd is-ddeddfwriaeth yn troi'n gyfraith rywbryd yn y flwyddyn ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Yn fuan ar ôl hyn, byddwn yn cyhoeddi **Codau a chanllawiau drafft ar amddiffyn plant**, ac **amddiffyn oedolion rhag niwed cyfreithiol**, yn ogystal ag asesiad risg sector sy'n ymwneud â niwed cyfreithiol i blant ac oedolion. Byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y dogfennau hyn ac yn eu cwblhau tua blwyddyn ar ôl i ni gyhoeddi fersiynau drafft. Yn yr un modd â'r Codau cynnwys anghyfreithlon, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol naill ai osod y Codau gerbron y Senedd neu ein cyfarwyddo i'w haddasu.

Mae'r Codau'n ddogfennau allweddol, sy'n nodi'r camau y gall gwasanaethau eu cymryd i gydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall gwasanaethau ddewis defnyddio dull arall, ar yr amod bod hyn yn cyd-fynd â'r dyletswyddau yn y Mesur. Ond bydd Codau'n llwybr clir at gydymffurfio, ac rydym yn rhagweld y bydd llawer o wasanaethau'n manteisio ar hyn.

O ystyried hyn, rhaid i Godau daro cydbwysedd. Ar y naill law, rydym am iddynt ddarparu **digon o eglurder a symlrwydd** fel y gellir disgwyl yn rhesymol i unrhyw wasanaeth, ni waeth pa mor fach ydyw, ddilyn y camau a ddisgrifir ganddynt. Ar yr un pryd, bydd angen iddynt fod yn **ddigon hyblyg** i

fod yn briodol ar gyfer yr amrywiaeth o wasanaethau sydd o fewn cwmpas y drefn ac i ganiatáu i ddulliau gweithredu gwasanaethau esblygu dros amser wrth i dechnoleg - a niwed - esblygu. Rydym yn cydnabod y bydd atebion diogelwch, a'n dealltwriaeth ohonynt, yn gwella dros amser – ac o ganlyniad bydd angen i'n Codau esblygu hefyd.

Mae gan y gwasanaethau ar-lein mwyaf alluoedd ac adnoddau sy'n llawer mwy na'r rhai ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau o fewn y cwmpas, a byddwn eisiau cyhoeddi disgwyliadau clir o'r cwmnïau mwyaf heb osod baich anghymesur ar wasanaethau llai neu is eu gwerth.

Wrth baratoi ein Codau byddwn yn ystyried y **risgiau i fynegiant rhydd a phreifatrwydd** y gallai ein mesurau a argymhellir eu cyflwyno, a byddwn yn cynnwys mesurau diogelu priodol ar gyfer diogelu'r hawliau sylfaenol hyn.

## Ymgysylltu'n benodol â gwasanaethau sy'n peri risg benodol

Ochr yn ochr â chyhoeddi'r Codau drafft, byddwn yn blaenoriaethu ymgysylltu â **gwasanaethau risg uchel neu uchel eu heffaith** er mwyn deall eu systemau diogelwch presennol a sut maent yn bwriadu eu gwella. Er mai dim ond ar gyfer cyfran fach o'r gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas y bydd yr ymgysylltu strwythuredig hwn yn bosib, ni fydd wedi ei gyfyngu i wasanaethau yng Nghategori 1, 2a, na 2b; byddwn hefyd yn ymgysylltu â rhai gwasanaethau llai, yr ydym wedi eu nodi fel rhai sy'n peri risgiau penodol o niwed yn rhinwedd eu cynnig cynnwys, eu sylfaen defnyddwyr neu eu nodweddion gwasanaeth. Byddwn yn rhoi gwybod i wasanaethau penodol cyn dechrau'r gwaith ymgysylltu hwn.

Bydd y dull 'goruchwyliaeth' hwn sy'n seiliedig ar risg yn ein helpu i ganfod materion systemig yn gynnar, yn hytrach na dim ond ymateb i broblemau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn disgwyl i wasanaethau o'r fath fod yn agored gyda ni am y risgiau maent yn eu hwynebu; y camau maent wedi eu cymryd i fynd i'r afael â nhw; sut maent wedi gwerthuso effeithiolrwydd eu gweithredoedd; a beth arall maent yn ystyried ei wneud i gadw defnyddwyr yn ddiogel. Byddwn hefyd yn ceisio deall agweddau defnyddwyr at y gwasanaethau hynny, ac yn ystyried tystiolaeth gan sefydliadau cymdeithas sifil, ymchwilwyr a chyrff arbenigol.

Rydym yn disgwyl i lwyfannau ymgysylltu'n adeiladol â ni a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau rheoleiddio, gan gynnwys gwneud gwelliannau sy'n helpu i ddiogelu defnyddwyr lle bo angen. Pan fo'n bosibl, byddwn yn ceisio ymgysylltu'n adeiladol â chwmnïau i ddatrys unrhyw broblem a welwn a sicrhau ein bod ni'n dilyn y llwybr cyflymaf a mwyaf effeithlon i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol.

Fodd bynnag, os ydym o'r farn nad yw llwyfan yn cymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed sylweddol, mae'r Mesur yn rhoi amrywiaeth o bwerau ymchwilio a gorfodi i ni. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau i ofyn am wybodaeth gan wasanaethau at ddibenion ein swyddogaethau ac i gael adroddiadau unigolyn medrus. Mae gennym hefyd bŵer i roi dirwyon o hyd at £18 miliwn neu 10% o'r refeniw byd-eang cymwys (pa un bynnag yw'r mwyaf) pan fyddwn yn dod o hyd i dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio. Yn yr achosion mwyaf difrifol o beidio â chydymffurfio, gallwn ofyn am orchymyn llys yn gosod mesurau tarfu ar fusnes, a all fynnu bod trydydd partïon (fel darparwyr gwasanaethau talu neu hysbysebu, neu ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd) yn tynnu eu gwasanaethau oddi ar y gwasanaeth nad yw'n cydymffurfio, neu'n rhwystro mynediad atynt. Er y

byddwn yn defnyddio ein pwerau gorfodi mewn ffordd gymesur, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi ei thargedu, mae'r pwerau hyn yn hanfodol i sicrhau ein bod ni'n gallu cymryd camau effeithiol pan fo angen i ddiogelu defnyddwyr.

## Alinio gyda rheoleiddwyr eraill

Rydym wedi cydnabod ers tro byd y potensial i wahanol gyfundrefnau rheoleiddio digidol yn y Deyrnas Unedig ryngweithio, a phwysigrwydd symleiddio ymdrechion gyda chyrff rheoleiddio eraill. Dyna pam ein bod ni wedi gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i sefydlu'r **Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol** i gynorthwyo'r gwaith o gydlynu ar draws ymdrechion rheoleiddio ar-lein yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r cydweithio hwn, sydd bellach yn ei ail flwyddyn, yn ein helpu i hyrwyddo cydlyniad rhwng ein cyfundrefnau, cydweithio ar brosiectau a meithrin gallu mewn meysydd fel sicrwydd oedran, goruchwylio'r farchnad a thryloywder algorithmig, a gweithio drwy unrhyw faes a allai achosi tensiwn. Rhan bwysig o'n gwaith yw hyrwyddo arloesi, a chynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cynnyrch, gwasanaethau a thechnolegau sy'n ategu ein nodau diogelwch ar-lein. Dros y flwyddyn nesaf, bydd Ofcom a phartneriaid y Fforwm yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau digidol cymhleth, gan gynnwys sut rydym yn cydweithio â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i sicrhau bod diogelwch a phreifatrwydd ar-lein yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant. Rydyn ni hefyd wedi cynyddu ein rhaglen waith ar y cyd â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i edrych ar sut rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i leihau'r risg o hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon sy'n cael eu darparu drwy gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr neu hysbysebion twyllodrus ar wasanaethau ar-lein o fewn y cwmpas. A chyn bo hir byddwn yn cyhoeddi datganiad ar y cyd â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar ryngweithio rhwng diogelwch ar-lein a chystadleuaeth, gan egluro sut byddwn yn cydweithio i sicrhau bod defnyddwyr a dinasyddion yn elwa cymaint â phosibl ar farchnadoedd cystadleuol a mesurau diogelwch ar-lein.

Mae gan nifer o reoleiddwyr eraill y Fforwm gyfrifoldebau'n barod, ac maent wedi gwneud gwaith sy'n berthnasol i ddiogelwch ar-lein. Mae gennym **berthynas gydweithio arbennig o gryf â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**, gan gynnwys trefniant rhannu gwybodaeth sy'n ymdrin â'r Cod Plant a'r drefn llwyfannau rhannu fideos, sy'n cael ei gryfhau ar hyn o bryd i ganolbwyntio ar oruchwylio llwyfannau. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi gwneud llawer iawn o waith i ddiogelu plant ar-lein, gan gynnwys cynhyrchu canllawiau ar sicrhau oed a sut dylai cwmnïau asesu a yw eu gwasanaethau yn debygol o gael eu defnyddio gan blant. Byddwn yn defnyddio'r gwaith hwn i lywio ein dull gweithredu ein hunain o ran canllawiau a Chodau Ymarfer, ac i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o'r rhyngweithio rhwng diogelwch ar-lein a phreifatrwydd. Byddwn yn ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth cyn cyhoeddi canllawiau diogelwch ar-lein perthnasol.

Er mai ein cyfrifoldeb ni fydd sicrhau bod gwasanaethau o fewn y cwmpas yn bodloni gofynion cyfreithiol y Deyrnas Unedig, **rydym yn cydnabod pwysigrwydd cysoni dulliau rhyngwladol** lle bo hynny'n briodol ac yn bosibl. O ystyried natur hynod fyd-eang y sector technoleg, gall alinio rhyngwladol helpu i sicrhau eglurder i ddefnyddwyr, diogelu hawliau defnyddwyr, hyrwyddo cydymffurfiaeth a lleihau'r baich rheoleiddio ar gwmnïau a rhanddeiliaid eraill.

Mae nifer o awdurdodaethau eraill wedi cyflwyno gofynion cyfreithiol newydd ar wasanaethau ar-lein i fynd i'r afael â niwed ar-lein, neu wrthi'n gwneud hynny. Sefydlodd Awstralia rôl y Comisiynydd eDdiogelwch yn 2015, ac mae ei gwmpas gweithgarwch wedi ehangu'n raddol ers hynny. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi mabwysiadu Deddf Gwasanaethau Digidol yr Undeb Ewropeaidd yn ddiweddar, ac mae gwledydd eraill gan gynnwys Canada wrthi'n ystyried deddfwriaeth yn y maes hwn.

Rydym wedi meithrin cysylltiadau cryf yn barod â'n cymheiriaid mewn awdurdodaethau eraill a byddwn yn parhau i ddilyn datblygiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol mewn mannau eraill ac yn ystyried y posiMesurrwydd o gydweddoldeb a chysondeb rhwng cyfundrefnau sy'n dod i'r amlwg. Er y gallai pensaernïaeth gwahanol systemau cenedlaethol amrywio, mae'r dulliau rheoleiddio (e.e. tryloywder, asesu risg, archwilio) yn debygol o fod yn gyffredin i'r rhan fwyaf neu bob un ohonynt, a gall cydweithredu rhyngwladol, gan gynnwys drwy fforymau rhanddeiliaid lluosog, ein helpu i ddatblygu pecyn rheoleiddio cyffredin sy'n seiliedig ar arferion gorau rhyngwladol.

Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o fentrau gwirfoddol i hyrwyddo cydweithredu rhyngwladol ar ddiogelwch ar-lein, gan gynnwys fel aelod o **Glymblaid Fyd-eang Diogelwch Digidol** Fforwm Economaidd y Byd, sy'n ceisio annog cydweithrediad rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i fynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein.

## Symud ymlaen eleni

Rydym eisiau **symud cyn gynted â phosibl i roi'r drefn newydd ar waith** a gwella gwarchodaeth i ddefnyddwyr. Rydym eisoes yn ymgysylltu â gwasanaethau allweddol - yn rhai bach a mawr - a fydd o fewn cwmpas y gyfundrefn ac a fydd yn cynyddu hyn yn ystod y flwyddyn hon. Ar ben hynny, o dan ein dyletswyddau llythrennedd yn y cyfryngau, rydym yn cynnal amrywiaeth o astudiaethau ymchwil ar ddiogelwch ar-lein a thechnoleg a fydd yn sail i'n gwaith pan fydd y drefn newydd yn dechrau – gan gynnwys ymchwil i'r hyn sy'n sbarduno'r niwed mwyaf difrifol a dylanwadol yng nghwmpas y Mesur a pha mor gyffredin yw'r niwed hwnnw. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn. Rydym yn parhau i ddatblygu ein timau a'n prosesau gweithredol, gan adeiladu ar yr arbenigedd rydym wedi ei gyflwyno o'r diwydiant, y byd academaidd a'r trydydd sector.

Yn olaf, byddwn yn parhau i reoleiddio llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig.[5] Bydd y gwersi a ddysgwn yn sgil rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos yn fewnbwn allweddol i'n ffordd o feddwl am reoleiddio diogelwch ar-lein. Ym mis Hydref 2022 byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar lwyfannau rhannu fideos, gan asesu'r cynnydd o ran ein nodau ar gyfer rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos a galluogi defnyddwyr i weld sut mae eu gwasanaethau'n gweithio i fynd i'r afael â niwed.

[5] Fel y mae ar hyn o bryd, bydd y Mesur yn diddymu'r drefn llwyfannau rhannu fideos yn y pen draw, er nad yw union ddyddiad y diddymiad wedi ei bennu eto. Bydd Ofcom yn darparu cymorth i wasanaethau a fydd, yn y pen draw, yn pontio rhwng y ddwy drefn.

# 4. Manylion y cynllun gweithredu

## Pwrpas yr adran hon

Mae'r adran hon yn disgrifio'r broses y byddwn yn ei dilyn wrth sefydlu'r drefn reoleiddio newydd hon ac yn egluro pa wasanaethau fydd angen sylw, a phryd, er mwyn paratoi ar gyfer rheoleiddio. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw ffurfiol ar gyfer gwasanaethau rheoledig ar eu dyletswyddau. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am yr hyn y gall gwasanaethau ei wneud i gydymffurfio â'u dyletswyddau yn y Codau a'r canllawiau a gyhoeddir gennym ar ôl Cydsyniad Brenhinol.

## Cwmpas y drefn

### Pwy sydd o fewn y cwmpas ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein?

Mae'r drefn diogelwch ar-lein yn rhyngwladol. Bydd yn cynnwys yr holl wasanaethau sydd â'r nodweddion a nodir isod sydd â chysylltiadau â'r Deyrnas Unedig[6], ni waeth ble mae'r endid sy'n darparu'r gwasanaeth wedi ei leoli neu ei gofrestru.

Yn gyffredinol, bydd gwasanaethau lle gall defnyddwyr ddod ar draws cynnwys (fel negeseuon, delweddau, fideos a sylwadau) sydd wedi cael ei greu, ei lwytho i fyny neu ei rannu gan ddefnyddwyr eraill yn rhan o gwmpas y drefn diogelwch ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n caniatáu negeseuon preifat rhwng defnyddwyr. Mae rhai mathau penodol o wasanaethau wedi eu heithrio o'r drefn, fel y rhestrir isod.

Yn ogystal, mae'r Mesur yn gosod dyletswyddau ar wasanaethau chwilio neu beiriannau chwilio sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio mwy nag un wefan a/neu gronfa ddata.

Mae'r Mesur hefyd yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr cynnwys pornograffig, a ddiffinnir fel gwasanaethau sy'n cyhoeddi neu'n arddangos deunydd a gynhyrchir yn bennaf at ddibenion cynnwrf rhywiol, i sicrhau nad yw pobl o dan 18 oed fel arfer yn gallu dod ar draws deunydd o'r fath.


Fel y crybwyllwyd uchod, mae rhai eithriadau gwasanaeth pwysig wedi eu hamlinellu yn y Mesur, nad ydynt yn rhan o gwmpas ar gyfer rheoleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau e-bost;
- Gwasanaethau SMS ac MMS;
- Gwasanaethau sy'n cynnig cyfathrebu clywedol un-i-un yn unig;
- Gwasanaethau chwilio neu ddefnyddwyr busnes mewnol;
- Gwasanaethau â swyddogaethau cyfyngedig ar gyfer rhannu rhwng defnyddwyr, e.e. galluogi defnyddwyr i bostio adolygiadau cynnyrch;
- Gwasanaethau sy'n darparu addysg a gofal plant;
- Gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus.

---

[6] Mae hyn yn golygu: (i) lle mae gan y gwasanaeth nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig; (ii) defnyddwyr y Deyrnas Unedig yw un o'i farchnadoedd targed neu ei unig farchnad darged; neu (iii) mae modd i unigolion ei ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig ac mae sail resymol dros gredu bod risg sylweddol o niwed sylweddol i unigolion yn y Deyrnas Unedig a gyflwynir gan gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr sy'n bresennol ar y gwasanaeth neu gynnwys chwilio'r gwasanaeth.

# Elfennau ac amseru ar gyfer gweithredu




## Ein cynlluniau ar ôl y Cydsyniad Brenhinol

Ein rhagdybiaeth cynllunio ar hyn o bryd yw y bydd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn cael ei phasio erbyn dechrau 2023. Rydym yn disgwyl i’n pwerau ddod i rym ddau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol. Ar ôl i’n pwerau ddod i rym, byddwn yn cyhoeddi cyfres o ymgynghoriadau ar ein dull rheoleiddio diogelwch ar-lein. Rydym yn egluro’r amserlenni a’r ffocws ar gyfer y dogfennau hyn isod.

**Byddem yn annog pob darparwr gwasanaeth i ddarllen y dogfennau hyn yn ofalus** gan y byddant yn rhoi syniad cynnar o ofynion tebygol y drefn ac yn cynorthwyo ymdrechion y gwasanaethau i baratoi. Bydd gwasanaethau hefyd yn gallu ystyried a fyddant yn ymateb i’n hymgynghoriad a sut byddant yn gwneud hynny.

**Ein cynllun am y 100 diwrnod cyntaf ar ôl i ni gael ein pwerau:**

- Cyhoeddi Codau drafft ar y niwed mae cynnwys anghyfreithlon yn ei achosi, gan gynnwys Camfanteisio a Cham-drin Plant yn Rhywiol a chynnwys terfysgol;
- Cyhoeddi asesiad risg sector sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon niweidiol, gan gynnwys proffiliau risg ar gyfer grwpiau o gwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio, gan nodi'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'u gwasanaethau;
- Cyhoeddi canllawiau drafft ar asesiadau risg cynnwys anghyfreithlon;
- Cyhoeddi canllawiau drafft ar asesiadau o fynediad i blant;
- Cyhoeddi canllawiau drafft ar adrodd ar dryloywder;
- Cyhoeddi canllawiau gorfodi drafft;
- Cyhoeddi canllawiau drafft ar gadw cofnodion ac adolygu;
- Cyhoeddi ymgynghoriad ar gyngor i'r Llywodraeth ar drothwyon categoreiddio;
- Cyhoeddi ymgynghoriad ar sut bydd Ofcom yn penderfynu pwy sy'n talu ffioedd ar gyfer rheoleiddio diogelwch ar-lein;
- Dechrau ymgysylltu wedi ei dargedu gyda'r gwasanaethau risg uchaf.

## Ein cynlluniau ar gyfer pob elfen o'r drefn

Gellir ystyried bod y drefn diogelwch ar-lein wedi ei rhannu'n bedwar maes allweddol. Bydd gan bob un o'r meysydd hyn ofynion penodol ar wasanaethau, ac amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith. Y meysydd hyn yw:

1. Diogelu pobl rhag cynnwys anghyfreithlon;
2. Amddiffyn plant rhag cynnwys amhriodol i oedran;
3. Grymuso oedolion i amddiffyn eu hunain rhag cynnwys cyfreithlon ond niweidiol; a
4. Chynyddu tryloywder cyhoeddus yng ngweithredoedd gwasanaethau wedi eu categoreiddio i ddiogelu.

Mae'r Mesur yn ymdrin â dyletswyddau ychwanegol sydd y tu allan i'r meysydd allweddol hyn, gan gynnwys dyletswyddau penodol ar bob gwasanaeth i ystyried pwysigrwydd diogelu hawliau defnyddwyr i ryddid mynegiant o fewn y gyfraith, ac i ddiogelu defnyddwyr rhag torri darpariaethau statudol neu reolau cyfreithiol perthnasol sy'n ymwneud â phreifatrwydd wrth benderfynu ar fesurau a pholisïau diogelwch a'u rhoi ar waith.

Bydd dyletswyddau hefyd ar wasanaethau Categori 1 a 2A ynghylch hysbysebu twyllodrus, a dyletswyddau ar wasanaethau Categori 1 sy'n ymwneud â grymuso defnyddwyr a dilysu manylion defnyddwyr. Bydd gan wasanaethau Categori 1 ddyletswyddau ychwanegol sy'n ymwneud ag asesu effeithiau eu mesurau a'u polisïau diogelwch ar hawliau defnyddwyr i ryddid mynegiant a phreifatrwydd, cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd.


Bydd gan bob gwasanaeth ddyletswyddau o ran adolygu a chadw cofnodion. Bydd gan bob darparwr gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig ddyletswyddau o ran adrodd ar Gamfanteisio a Cham-drin Plant yn Rhywiol. Bydd disgwyl hefyd i ddarparwyr gwasanaethau nad ydynt yn y Deyrnas Unedig nad ydynt eisoes yn rhoi gwybod am gynnwys Camfanteisio a Cham-drin Plant yn Rhywiol i asiantaethau tramor eraill adrodd i awdurdodau cyhoeddus y Deyrnas Unedig ar y cynnwys hwn.

Mae'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar y cerrig milltir sy'n berthnasol i'r pedwar maes allweddol a restrir uchod, ac nid yw'n cwmpasu pob rhan o'r Mesur fel y'i cyflwynwyd. Bydd rhagor o fanylion am sut rydyn ni'n bwriadu mynd i'r afael â meysydd eraill mae'r Mesur yn ymdrin â nhw yn cael eu darparu maes o law.

## Ffrwd 1: Diogelu pobl rhag cynnwys anghyfreithlon

Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i bob gwasanaeth o fewn y cwmpas.

Mae elfennau craidd rhan cynnwys anghyfreithlon y gyfundrefn wedi eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Gan hynny, yr elfen hon o'r drefn fydd yn cael ei rhoi ar waith gyntaf. Ein rhagdybiaeth cynllunio ar hyn o bryd yw y byddwn yn cyhoeddi Codau drafft ynghylch cynnwys anghyfreithlon sy'n peri niwed yng ngwanwyn 2023 a bydd y dyletswyddau perthnasol yn cael eu gorfodi tua chanol 2024.




### Pa wasanaethau fydd â dyletswyddau i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon?

Mae gan bob gwasanaeth chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd o fewn y cwmpas ddyletswydd i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon, ni waeth beth yw eu categori.

Bydd angen i bob gwasanaeth gynnal 'asesiad risg cynnwys anghyfreithlon'. Rhaid i hyn asesu, ymysg pethau eraill, y risg y bydd unigolion yn dod ar draws cynnwys anghyfreithlon ar wasanaeth, y risg o niwed a achosir gan gynnwys anghyfreithlon a sut gallai gweithrediadau a swyddogaethau gwasanaeth leihau neu gynyddu'r risgiau hyn.

Bydd angen i bob gwasanaeth roi mesurau cymesur ar waith i liniaru a rheoli'n effeithiol y risgiau o niwed sy'n deillio o gynnwys anghyfreithlon. Bydd hyn yn cynnwys systemau a phrosesau i gael gwared ar gynnwys anghyfreithlon pan fydd gwasanaeth yn dod yn ymwybodol ohono.

Yn gysylltiedig â hyn, bydd angen i bob gwasanaeth roi systemau a phrosesau ar waith sy'n caniatáu i ddefnyddwyr a phobl yr effeithir arnynt roi gwybod am gynnwys anghyfreithlon. Rhaid iddynt hefyd ddarparu gweithdrefn gwyno i ddefnyddwyr sydd o'r farn nad ydynt yn cydymffurfio â'u dyletswyddau, a darparu ar gyfer cymryd camau priodol mewn ymateb i gwynion. Rhaid i'r systemau

hyn fod yn hawdd eu cyrchu, yn hawdd eu defnyddio ac wedi eu disgrifio'n glir yn nhelerau gwasanaeth y gwasanaeth.

## Beth yw'r broses ar gyfer sefydlu'r rhan hon o'r drefn a phryd bydd angen i wasanaethau weithredu?

Byddwn yn symud yn gyflym i ddechrau gweithredu elfen cynnwys anghyfreithlon y drefn cyn gynted ag y bydd ein pwerau'n dechrau. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau drafft yn nodi ein cynigion ar gyfer sut rydym yn disgwyl i wasanaethau gynnal eu hasesiad risg cynnwys anghyfreithlon, a Chodau Ymarfer drafft yn egluro sut gall gwasanaethau gydymffurfio â'u dyletswyddau i fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon. Byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y dogfennau hyn cyn eu llunio'n derfynol.

Gan hynny, dylai gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb fod yn barod i **ddechrau ymgysylltu â'n hymgynghoriad ar Godau drafft a chanllawiau asesu risg yng Ngwanwyn 2023**. Ein disgwyliad ar hyn o bryd yw y bydd yr ymgynghoriad ar agor am dri mis. Gall gwasanaethau a rhanddeiliaid ymateb i'r ymgynghoriad o fewn yr amserlen hon os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Yn ogystal, bydd gennym ein pwerau casglu gwybodaeth ac mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r rhain os bydd angen i gasglu tystiolaeth ar gyfer ein gwaith ar weithredu'r drefn. Dylai gwasanaethau fod yn barod i ymateb i'r ceisiadau hyn, a byddwn yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau ein bod ni'n bwriadu gofyn am wybodaeth ganddynt cyn gynted â phosibl.


Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad yn rhoi trefn derfynol ar ein canllawiau asesu risg cynnwys anghyfreithlon a'n Codau Ymarfer ar gyfer cynnwys anghyfreithlon yng ngwanwyn 2024 tua blwyddyn ar ôl i ni gyhoeddi'r dogfennau drafft ar gyfer ymgynghori arnynt. Bydd gwasanaethau wedyn yn cael tri mis i gwblhau eu hasesiad risg cynnwys anghyfreithlon. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyflwyno ein Codau Ymarfer ar gyfer cynnwys anghyfreithlon i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w cyflwyno yn y Senedd. Ein rhagdybiaeth cynllunio ar hyn o bryd yw bod y **Codau Ymarfer cyntaf ar gyfer cynnwys anghyfreithlon yn debygol o gael eu cyhoeddi tua chanol 2024** tua'r un pryd ag y bydd gwasanaethau'n cwblhau eu hasesiadau risg cynnwys anghyfreithlon. Daw'r Codau Ymarfer i rym 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Bydd yn rhaid i gwmnïau gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch cynnwys anghyfreithlon o'r pwynt hwnnw ymlaen a bydd gennym y pŵer i gymryd camau gorfodi os bydd angen.

Ar ôl i'r Codau Ymarfer gael eu cyhoeddi a phan fydd gwasanaethau wedi cwblhau eu hasesiadau risg, bydd angen i wasanaethau sicrhau bod y mesurau lliniaru sydd ganddynt ar waith i fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon yn ddigon cadarn i gyflawni eu dyletswyddau diogelwch.

Yn ogystal â bod yn barod i ymateb i'r ymgynghoriad y cyfeirir ato uchod, **dylai gwasanaethau rydym yn bwriadu eu blaenoriaethu ar gyfer gwaith goruchwylio penodol fod yn barod i ddechrau ymgysylltu â ni ynghylch eu systemau a'u prosesau, a'n Codau drafft, cyn gynted ag y bydd ein pwerau'n dechrau tua gwanwyn 2023**. Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, byddwn eisiau deall pa gamau mae gwasanaethau'n eu cymryd ar hyn o bryd i asesu'r risg o niwed sy'n deillio o gynnwys anghyfreithlon, beth mae'r asesiad hwn yn ei ddangos a pha gamau maent yn eu cymryd i liniaru cynnwys anghyfreithlon ar eu llwyfannau.

# Ffrwd 2: Diogelu plant

> Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i'r holl wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant.




## Pa wasanaethau fydd â dyletswyddau i ddiogelu plant?

Mae gan bob gwasanaeth chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr o fewn y cwmpas ddyletswydd i sefydlu a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth neu ran o'u gwasanaeth, beth bynnag fo'u categori. I wneud hyn, bydd angen i wasanaethau gynnal 'asesiad o fynediad plant'.

Bydd angen i wasanaethau sy'n gweld eu bod yn debygol o gael eu defnyddio gan blant hefyd gynnal 'asesiad risg plant' gan asesu'r risg y bydd defnyddwyr plant yn dod i gysylltiad â chynnwys sy'n niweidiol i blant, a rhoi mesurau ar waith i liniaru'r risgiau a nodwyd. Mae angen cymryd rhai camau penodol o dan yr asesiad risg plant a'r dyletswyddau diogelwch mewn perthynas â chynnwys 'prif flaenoriaeth' a 'blaenoriaeth' sy'n niweidiol i blant. Er enghraifft, rhaid i wasanaethau i ddefnyddwyr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur i atal plant o unrhyw oed rhag dod ar draws cynnwys â blaenoriaeth sylfaenol.

Bydd cynnwys blaenoriaeth a blaenoriaeth bennaf sy'n niweidiol i blant yn cael ei ddiffinio mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Felly, bydd y dyletswyddau hyn sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn dod i rym yn hwyrach na'r dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon, dim ond ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth ddod i rym.

Bydd angen i wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant hefyd sefydlu systemau a phrosesau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr a phobl yr effeithir arnynt roi gwybod am gynnwys a allai fod yn niweidiol i blant. Rhaid iddynt hefyd weithredu trefn gwyno, a darparu ar gyfer cymryd camau priodol mewn ymateb i gwynion. Rhaid i'r systemau hyn fod yn hawdd eu cyrchu, yn hawdd eu defnyddio ac wedi eu disgrifio'n glir yn nhelerau gwasanaeth y gwasanaeth.

Ar wahân i hynny, bydd gan ddarparwyr cynnwys pornograffig, a ddiffinnir fel gwasanaethau sy'n cyhoeddi neu'n arddangos deunydd a gynhyrchir yn bennaf at ddibenion cyffro rhywiol, ddyletswydd i sicrhau na fydd plant fel arfer yn gallu dod ar draws deunydd pornograffig ar eu gwasanaethau.

## Beth yw'r broses ar gyfer sefydlu'r rhan hon o'r drefn a phryd bydd angen i wasanaethau weithredu?

Yn fuan ar ôl i'n pwerau ddechrau, ein nod yw cyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori yn esbonio sut rydym yn disgwyl i wasanaethau gynnal eu hasesiad o fynediad i blant. Bydd hwn yn nodi pa ffactorau y mae angen i wasanaethau eu hystyried i benderfynu a ydynt yn debygol o gael eu defnyddio gan blant. Byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y ddogfen hon.

Yn yr un modd â'r canllawiau a'r Codau ar asesu risg cynnwys anghyfreithlon, dylai gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb fod yn barod i **ddechrau ymgysylltu â'n hymgynghoriad ar asesiadau o fynediad i blant yng ngwanwyn 2023**. Ein disgwyliad ar hyn o bryd yw y bydd yr ymgynghoriad ar agor am dri mis. Gall gwasanaethau a rhanddeiliaid ymateb i'r ymgynghoriad o fewn yr amserlen hon os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Byddem yn disgwyl cyhoeddi datganiad yn rhoi trefn derfynol ar ein canllawiau asesu mynediad i blant yng ngwanwyn 2024 tua blwyddyn ar ôl i ni gyhoeddi'r ddogfen ddrafft. Bydd gwasanaethau wedyn yn cael tri mis i gwblhau eu hasesiad mynediad i blant. Os bydd ein pwerau'n dechrau yng ngwanwyn 2023, byddai hyn yn golygu ei bod yn **debygol y bydd angen i wasanaethau fod wedi cwblhau eu hasesiad o fynediad i blant erbyn canol 2024**.

Bydd y cynnwys blaenoriaeth a'r prif flaenoriaeth sy'n niweidiol i blant yn cael ei ddiffinio mewn is-ddeddfwriaeth; ni fyddwn yn gallu ymgynghori ar ein canllawiau asesu risg drafft na'n Codau Ymarfer sy'n ymwneud â chynnwys sy'n niweidiol i blant tan ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth hon gael ei chwblhau. Yn fuan ar ôl hynny, byddwn yn cyhoeddi canllawiau drafft yn nodi ein cynigion ar gyfer sut rydym yn disgwyl i wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ymgymryd â'u hasesiad risg plant a Chodau Ymarfer drafft sy'n egluro sut gall gwasanaethau gydymffurfio â'u dyletswyddau i amddiffyn plant rhag niwed. Byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y dogfennau hyn.

Yn ogystal, bydd gennym ein pwerau casglu gwybodaeth ac mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r rhain os bydd angen i gasglu tystiolaeth ar gyfer ein gwaith ar weithredu'r drefn. Dylai gwasanaethau fod yn barod i ymateb i'r ceisiadau hyn, a byddwn yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau ein bod ni'n bwriadu gofyn am wybodaeth ganddynt cyn gynted â phosibl.

Ein rhagdybiaeth cynllunio ar hyn o bryd yw y bydd yr is-ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â chynnwys sy'n niweidiol i blant ar waith erbyn canol 2023 ac y dylai gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb felly fod yn barod i ddechrau ymgysylltu â'n hymgynghoriad ar amddiffyn plant yn ystod hydref 2023. Ein disgwyliad ar hyn o bryd yw y bydd yr ymgynghoriad ar agor am dri mis. Gall gwasanaethau a rhanddeiliaid ymateb i'r ymgynghoriad o fewn yr amserlen hon os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Rydym yn disgwyl y **byddai canllawiau a Chodau ar niwed i blant yn cael eu cwblhau yn hydref 2024,** tua blwyddyn ar ôl i ni gyhoeddi'r ymgynghoriad. Bydd gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant wedyn yn cael tri mis i gwblhau eu hasesiad risg plant. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyflwyno ein Codau Ymarfer ar niwed i blant i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w cyflwyno yn y Senedd. Ein rhagdybiaeth cynllunio ar hyn o bryd yw y bydd y cod hwn yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2024 tua'r un adeg ag y bydd gwasanaethau'n cwblhau eu hasesiadau risg plant cyntaf.

Ar ôl i'r Codau Ymarfer gael eu cyhoeddi a phan fydd gwasanaethau wedi cwblhau eu hasesiadau risg plant, bydd angen i wasanaethau sicrhau bod y mesurau lliniaru sydd ganddynt ar waith i fynd i'r afael â niwed i blant yn ddigon cadarn i gyflawni eu dyletswyddau diogelwch.

Erbyn yr amcangyfrif o'r amserlen, byddai hyn yn golygu y byddai disgwyl i wasanaethau fod wedi cwblhau asesiad risg eu plant a **dechrau rhoi mesurau ar waith i gydymffurfio â'u dyletswydd diogelwch tua diwedd 2024**.

Mae gan ddarparwyr deunydd pornograffig ddyletswydd annibynnol yn y Mesur fel y'i drafftiwyd i sicrhau na all plant gael mynediad at eu gwasanaethau fel arfer. Mae'r ddyletswydd hon ar wahân i'r gofynion sy'n berthnasol i wasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mewn perthynas ag amddiffyn plant, fel y disgrifir uchod.

Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi nodi mai eu bwriad yw y bydd angen i wasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr hefyd weithredu o dan eu dyletswydd gofal yng nghyswllt cynnwys pornograffig maent yn ei letya (h.y. cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr neu mewn canlyniadau chwilio), fel enghraifft o fath o gynnwys sy'n niweidiol i blant.

Er mwyn sicrhau cysondeb yn ein dull o reoleiddio cynnwys pornograffig ar draws y bwrdd – boed yn gynnwys pornograffig gan ddarparwyr neu'n gynnwys pornograffig a gynhyrchir gan ddefnyddwyr – rydym ar hyn o bryd yn bwriadu ymgynghori ar ganllawiau a Chodau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag deunydd pornograffig a gynhyrchir gan ddarparwyr cynnwys pornograffig a diogelu plant rhag cynnwys pornograffig a gynhyrchir gan ddefnyddwyr gyda'i gilydd.

Yn ôl y rhagdybiaethau cynllunio presennol, byddai hyn yn golygu y dylai darparwyr pornograffi masnachol, gwasanaethau sy'n lletya gwasanaethau chwilio a phornograffi a gynhyrchir gan ddefnyddwyr **baratoi i ymgysylltu â'n hymgynghoriad ynghylch mesurau i atal plant rhag cael gafael ar ddeunydd pornograffig tua hydref 2023**.

## Ffrwd 3: Grymuso oedolion i amddiffyn eu hunain rhag cynnwys cyfreithlon ond niweidiol

> Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i wasanaethau Categori 1 yn unig.

Mae dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnwys sy'n gyfreithiol ond sy'n niweidiol i oedolion yn dibynnu ar is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â throthwyon categoreiddio a chynnwys â blaenoriaeth sy'n niweidiol i oedolion, ac felly byddant yn cael eu rhoi ar waith yn hwyrach na dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon.




## Pa wasanaethau fydd â dyletswyddau i ddiogelu oedolion rhag cynnwys anghyfreithlon ond niweidiol?

Bydd angen i wasanaethau sy'n dod o dan Gategori 1 gynnal asesiadau risg 'oedolion' i asesu'r risgiau i oedolion o gynnwys cyfreithlon ond niweidiol ar eu gwasanaethau.

Bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n cynnal asesiadau risg oedolion ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys eu sylfaen defnyddwyr, y risg y bydd oedolion yn dod ar draws cynnwys cyfreithiol ond niweidiol blaenoriaethol, swyddogaethau'r gwasanaeth a sut gallai dyluniad y gwasanaeth gynyddu neu leihau'r risgiau a nodwyd. Bydd yn rhaid i wasanaethau Categori 1 nodi mewn telerau gwasanaeth clir a hygyrch grynodeb o'u hasesiadau risg, eu dull o fynd i'r afael â niwed cyfreithiol blaenoriaethol i oedolion a gorfodi eu telerau gwasanaeth yn gyson.

Yn ogystal, bydd angen i wasanaethau Categori 1 roi systemau a phrosesau ar waith sy'n caniatáu i ddefnyddwyr a phobl yr effeithir arnynt roi gwybod am gynnwys cyfreithlon sy'n niweidiol. Rhaid iddynt hefyd weithredu trefn gwyno, a darparu ar gyfer cymryd camau priodol mewn ymateb i gwynion. Rhaid i'r systemau hyn fod yn hawdd eu cyrchu, yn hawdd eu defnyddio ac wedi eu nodi'n glir yn nhelerau gwasanaeth y gwasanaeth.

## Beth yw'r broses ar gyfer sefydlu'r rhan hon o'r drefn a phryd bydd angen i wasanaethau weithredu?

Bydd sefydlu'r broses ar gyfer dyletswyddau sy'n ymwneud â niwed yn dibynnu ar ddau ddarn o is-ddeddfwriaeth:

- Is-ddeddfwriaeth sy'n diffinio'r trothwyon sy'n rhoi gwasanaethau yng Nghategori 1; ac
- Is-ddeddfwriaeth yn nodi'r niwed y rhoddir blaenoriaeth iddo i oedolion y bydd angen i wasanaethau ei ystyried.

Cyn cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth hon, byddwn yn rhoi cyngor i'r Llywodraeth ynghylch lle'r ydym yn argymell gosod y trothwy ar gyfer Categori 1. Rydym yn bwriadu ymgynghori'n gyhoeddus ar y cyngor hwn yn fuan ar ôl i'n pwerau ddechrau. **Dylai gwasanaethau fod yn barod i ymgysylltu â'r ymgynghoriad hwn o gwmpas gwanwyn 2023**.

Ein rhagdybiaeth cynllunio yw y bydd y ddau ddarn o is-ddeddfwriaeth yn eu lle erbyn dechrau 2024. Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r rheoliadau trothwy gael eu gwneud, a chaniatáu ar gyfer unrhyw gasglu tystiolaeth angenrheidiol, bydd Ofcom yn cyhoeddi cofrestr sy'n rhestru pa wasanaethau sy'n uwch

na'r trothwy ac sydd felly yng Nghategori 1. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ein canllawiau drafft ar sut i gynnal asesiad risg oedolion a Chodau Ymarfer drafft ar y camau y gall gwasanaethau Categori 1 eu cymryd i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chynnwys sy'n gyfreithiol ond yn niweidiol i oedolion. Byddwn yn ymgynghori ar y dogfennau drafft hyn ac yn caniatáu tua thri mis ar gyfer ymatebion. Unwaith eto, dylai gwasanaethau Categori 1 a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb fod yn barod i ymgysylltu â'n hymgynghoriad ddechrau 2024.

Yn ogystal, bydd gennym ein pwerau casglu gwybodaeth ac mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r rhain os bydd angen i gasglu tystiolaeth ar gyfer ein gwaith ar weithredu'r drefn. Dylai gwasanaethau fod yn barod i ymateb i'r ceisiadau hyn, a byddwn yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau ein bod ni'n bwriadu gofyn am wybodaeth ganddynt cyn gynted â phosibl.

Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad yn rhoi trefn derfynol ar ein canllawiau asesu risg i oedolion a'n Codau oedolion tua diwedd 2024. Unwaith y bydd hyn yn digwydd, bydd gwasanaethau Categori 1 yn cael tri mis ar ôl hynny i gwblhau eu hasesiad risg oedolion.


Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyflwyno ein Codau Ymarfer ynghylch y dyletswyddau diogelwch hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w cyflwyno yn y Senedd. Ein rhagdybiaeth cynllunio ar hyn o bryd yw y **bydd y Codau Ymarfer hyn mewn grym erbyn diwedd 2024**, tua'r un adeg ag y bydd gwasanaethau Categori 1 yn cwblhau eu hasesiadau risg cyntaf i oedolion. Ar ôl iddynt wneud hyn, bydd angen iddynt nodi'n glir yn eu telerau gwasanaeth sut byddant yn mynd i'r afael â chynnwys â blaenoriaeth sy'n niweidiol i oedolion a sicrhau eu bod yn defnyddio'r telerau hyn yn gyson.

Yn y pen draw, mater i wasanaethau fydd penderfynu a ddylid lletya cynnwys sy'n niweidiol i oedolion ar yr amod eu bod yn glir ynghylch eu hagwedd at y cynnwys hwn yn eu telerau gwasanaeth. Nod y rhan hon o'r Mesur yw peidio â sensro lleferydd cyfreithiol: yn hytrach, rhoi'r gallu i ddefnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus am eu hymgysylltiad â gwasanaethau ar-lein, drwy ddatgelu'n dryloyw y mathau o gynnwys y gallai gwasanaeth eu cynnal.

## Ffrwd 4: Hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd

> Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i wasanaethau Categori 1, Categori 2a a Chategori 2b yn unig.

Mae dyletswyddau i gynhyrchu adroddiadau tryloyw yn dibynnu ar is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â throthwyon categoreiddio ac felly byddant yn cael eu cyflwyno yn hwyrach na dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon.




## Ar ba wasanaethau y bydd dyletswydd i lunio adroddiadau tryloywder?

Bydd Ofcom yn mynnu bod cwmnïau yng Nghategori 1, 2a a 2b yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiadau tryloywder ynghylch eu gwasanaeth unwaith y flwyddyn. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu defnyddio fel sail i'n dull rheoleiddio, ac ar gyfer paratoi adroddiadau tryloywder blynyddol Ofcom ei hun.

## Beth yw'r broses ar gyfer sefydlu'r rhan hon o'r drefn a phryd bydd angen i wasanaethau weithredu?

Yn fuan ar ôl i'n pwerau ddechrau, ein nod yw cyhoeddi canllawiau drafft ar adrodd ar dryloywder. Byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y canllawiau hyn, gan ganiatáu tua thri mis i wasanaethau ymateb. Rydym yn disgwyl cwblhau'r canllawiau tua blwyddyn ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Os bydd ein pwerau'n dechrau yng ngwanwyn 2023, mae hyn yn golygu y gellid cwblhau'r canllawiau ar adrodd yn dryloyw erbyn gwanwyn 2024. Fel rydym wedi nodi uchod, erbyn y pwynt hwn rydym yn disgwyl y byddwn wedi cyhoeddi cofrestr sy'n nodi pa wasanaethau sydd yng Nghategori 1, 2a a 2b.

Yn dilyn hyn, **yn ystod gwanwyn a chanol 2024, byddwn yn rhoi hysbysiadau tryloywder drafft** i wasanaethau yn y categorïau hyn. Byddwn yn ymgysylltu â gwasanaethau perthnasol cyn cyhoeddi hysbysiad tryloywder terfynol iddynt.

Bydd hysbysiadau tryloywder yn rhoi manylion yr wybodaeth sydd ei hangen yn adroddiadau tryloywder y llwyfannau a'r dyddiadau cau ar gyfer adrodd. Gall y mathau o wybodaeth a all fod yn ofynnol mewn hysbysiad gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) fesurau ynghylch nifer yr achosion o gynnwys anghyfreithlon a niweidiol ar wasanaeth, sut mae telerau gwasanaethau'n cael eu defnyddio a swyddogaethau sydd ar waith i helpu defnyddwyr i reoli risgiau mewn perthynas â chynnwys niweidiol. Gall hysbysiadau hefyd nodi gwybodaeth am systemau a phrosesau ehangach sydd ar waith i gefnogi defnyddwyr mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon a niweidiol, a sut mae gwasanaeth yn gweithio gyda chyrff eraill yn y llywodraeth, cyrff rheoleiddio neu gyrff yn y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

Ar ôl i'r hysbysiadau gael eu cwblhau a'u rhoi i lwyfannau, bydd ganddynt gyfnod penodol o amser i gyhoeddi eu hadroddiadau tryloywder mewn dull a fformat a nodir ym mhob hysbysiad. Bydd Ofcom yn cyhoeddi'r hysbysiadau hyn unwaith y flwyddyn. Rhaid i wasanaethau sicrhau bod eu hadroddiadau tryloywder yn gyflawn ac yn gywir wrth gyflwyno.

Yn ôl yr amcangyfrif o'r amserlen, byddai hyn yn golygu y **dylai gwasanaethau Categori 1, 2a a 2b fod yn barod i gyflwyno eu hadroddiadau tryloywder cyntaf tua diwedd 2024**.

## Ffioedd

Bydd y drefn diogelwch ar-lein yn cael ei chyllido gan gyfraniadau gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Telir ffioedd gan y gwasanaethau hynny sy'n mynd dros drothwy penodol o refeniw byd-eang cymwys.

Byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y diffiniad o refeniw byd-eang cymwys, y trothwyon ar gyfer talu ffioedd a'n dull o gyfrifo ffioedd yn ein hegwyddorion codi tâl. Dylai gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb fod yn barod i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn yn hanner cyntaf 2023/24. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y strwythur ffioedd yn cael ei gadarnhau yn y flwyddyn ganlynol, ac y bydd gwasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r trothwy refeniw byd-eang cymwys yn dechrau talu ffioedd yn 2024/25.

## Y camau nesaf

Ochr yn ochr â'r Map, rydym yn cyhoeddi cais am dystiolaeth sy'n gofyn am wybodaeth am asesu'r risg o niwed o gynnwys anghyfreithlon, am ddewisiadau ar gyfer lliniaru niwed ar-lein, asesiadau o fynediad plant a gofynion tryloywder. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed gan ddarparwyr y mae eu gwasanaethau'n debygol o ddod o dan gwmpas y fframwaith diogelwch ar-lein, yn ogystal â rheoleiddwyr, academyddion, sefydliadau cymdeithas sifil, cynrychiolwyr defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ac arbenigedd yn y maes hwn. Rydym yn gofyn am ymatebion erbyn **5pm ar 13 Medi 2022**.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid o'r diwydiant, cymdeithas sifil a chyrff cyhoeddus eraill wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer gweithredu'r drefn. Byddwn yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i wasanaethau am ein cynllun gweithredu a'r amserlenni enghreifftiol wrth i'r broses ddeddfwriaethol ynghylch y Mesur fynd rhagddi.

Byddwn yn cyhoeddi ein hymgynghoriad cyntaf, a fydd yn canolbwyntio ar ddyletswyddau cynnwys anghyfreithlon, ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Rydym yn rhagweld y bydd y broses hon yn dechrau yng ngwanwyn 2023.